

Teitl y Swydd: Hyfforddwr Tennis Cymunedol Arweiniol

Uned/Ysgol: Chwaraeon Met Caerdydd

Gradd: 4A/B

Pwrpas craidd y rôl

Bydd y Prif Hyfforddwr Tennis yn cymryd cyfrifoldeb am ddarpariaeth ymarferol rhaglenni hyfforddi ieuencid a chymunedol Tennis Met Caerdydd. Gan weithio gyda'r Pennaeth Tennis a gyda cefnogaeth hyfforddwyr cynorthwyol, bydd y Prif Hyfforddwr Tennis yn sicrhau gwasanaeth hyfforddi effeithlon a phroffesiynol sy'n cael ei danategu gan weledigaeth strategol y sefydliad; Addysg am Oes trwy Tennis.

Bydd y swydd hon yn gyfrifol am y rhaglen gymunedol sy'n cael ei darparu ar draws sawl safle, gan gynnwys ar hyn o bryd Canolfan Tennis Cyncoed Met Caerdydd a Chyrtiau Tennis Parc Llandaf. Rhaid i'r Hyfforddwr Tennis Cymunedol Arweiniol allu gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau ac arwain ein tîm mawr o hyfforddwyr cynorthwyol.

Bydd yr Hyfforddwr Tennis Cymunedol Arweiniol yn rhan o adran Chwaraeon Met Caerdydd a grëwyd i ddarparu chwaraeon a gweithgaredd corfforol ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd ac ar draws ein cymunedau. Trwy weithio yn yr adran hon, bydd gan yr Hyfforddwr Tennis Cymunedol Arweiniol fynediad at amrywiaeth eang o arbenigedd a bydd yn cael y cyfle i adeiladu rhaglen hyfforddi tennis unigryw.

Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol

- I gyflwyno rhaglenni hyfforddi i Blant, Ysgolion a Chymuned Met Caerdydd ar draws sawl safle.
- I gyflwyno darpariaethau gwerysll gwyliau Tennis Met Caerdydd gyda chefnogaeth y Pennaeth Tennis.
- I Gynorthwyo Pennaeth Tennis gyda'r dyletswyddau gweinyddol sydd eu hangen i dyfu ac ymgymryd â'r rhaglenni hyfforddi iau a chymunedol.
- Gan weithio gyda'r Pennaeth Tennis, i gyfrannu at dargedau incwm a chyfranogiad diffiniedig.
- I ymgysylltu â thîm ehangach Chwaraeon Met Caerdydd i greu cyfleoedd arloesol i gyflwyno tennis.
- I reoli cofrestriad, asesiad a chynnydd pob chwaraewr o dan eich goruchwyliaeth.
- I fod yn bwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau hyfforddi cymunedol Tennis Met Caerdydd gan gynnwys iau ac oedolion ac i gyfeirio unrhyw ymholiadau priodol at y Pennaeth Tennis.
- I gydlynu hyfforddwyr tenis cynorthwyol, myfyrwyr a gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar y rhaglenni hyfforddi tennis cymunedol.
- I rheoli eu hachrediad hyfforddwyr ac ymrwmo i ddatblygiad personol parhaus a ddarperir trwy'r Ganolfan Datblygu Hyfforddwyr, rhanddeiliaid a darparwyr ehangach.
- I fod yn ymwybodol a gweithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol o ran Amddiffyn Plant ac Iechyd a Diogelwch.

- I sicrhau bod fframwaith CACH Chwaraeon Met Caerdydd yn rhan annatod o holl raglenni hyfforddi cymunedol Met Caerdydd.

Manyleb Person

Cymwysterau Hanfodol ac Aelodaeth Broffesiynol

- Hyfforddwr Tennis LTA (Lefel 3) neu uwch
- Achrediad Hyfforddwr LTA +

Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol

1. Y gallu i ddarparu hyfforddiant tennis mewn amgylchedd proffesiynol i grwpiau oedran a galluoedd gwahanol.
2. Profiad o gyflwyno hyfforddiant trwy gydol rhaglen dymhorol yn ogystal â chyflwyno tennis trwy wersylloedd gwyliau.
3. Y gallu i arwain tîm o hyfforddwyr ac angerdd dros ddatblygu hyfforddwyr ifanc.
4. Y gallu i gynllunio a chyflwyno gwersi tennis blaengar ar draws blociau tymhorol/blynyddol.
5. Profiad o gyfathrebu â rhieni/gwarcheidwaid a rhanddeiliaid allanol eraill.
6. Y gallu i ddatblygu rhaglen chwaraeon gyda chyfrifoldebau oddi ar y cwrt.
7. Profiad o weithio gyda systemau archebu a dyletswyddau gweinyddol.
8. Deall sut i gynllunio a pharatoi sesiynau hyfforddi cynhwysol, diogel ac effeithiol wedi'u teilwra i anghenion ystod o gyfranogwyr.
9. Dealltwriaeth o gynlluniau datblygu chwaraeon cyrff llywodraethu.
10. Dealltwriaeth o bolisiau Amddiffyn Plant a phwysigrwydd diogelu

Dymunol

1. Gradd prifysgol berthnasol ochr yn ochr â chymhwyster hyfforddi.
2. Meddu ar brofiad o gyflwyno tennis ar draws anabledau lluosog.
3. Y gallu i siarad Cymraeg

Gofynion sgiliau Cymraeg

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac yn rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau trwy edrych ar ein llyfryn: Sgiliau Cymraeg Os rhestrir sgil yn hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

Lefel iaith a disgrifydd cyffredinol	Gwrando	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
A1 – Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	Dymunol	Dymunol	Dymunol	Dymunol
A2 - Defnyddiwr sylfaenol				



Yn gallu delio â gwybodaeth syml, syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol.				
B1 - Defnyddiwr canolradd Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn Gymraeg am bethau cyfarwydd a/neu waith.				
B2 - Defnyddiwr canolradd uwch Yn gallu mynegi fy hun yn Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs gyda siaradwr brodorol.				
C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.				
C2 - Prif ddefnyddiwr Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg.				

Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Mae angen gwiriad DBS manylach ar gyfer y swydd hon.

Gwybodaeth ategol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig; felly, efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a manyleb y person fod yn hollgynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad a'u hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob cyflogai ddangos ei fod yn glynu wrth ein Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob cyflogai roi sylw arbennig i'w gyfrifoldebau o dan bolisiau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.